# SYSTEMAU COED-AC-AREDIG

Gall integreiddio coed mewn systemau coed-ac-aredig presennol gefnogi a gwella agweddau ar eich cynhyrchiad ar yr un pryd â chynyddu gwydnwch a sicrhau'r cynhyrchiant gorau posibl. Mae coed yn cynnig cyfle i dyfu cynnyrch newydd, arallgyfeirio busnes y fferm a chynhyrchu mwy o'r un tir drwy ffermio '3D'.



Yn fwyaf cyffredin, mae rhesi o goed yn cael eu gosod mewn caeau i greu aleau y gellir parhau i'w ffermio ar gyfer cynhyrchiant coed-ac-aredig. Gellir plannu gwahanol fathau o goed i gyd-fynd â gwahanol amcanion, gan gynnwys cynhyrchu ffrwythau, cnau, pren a biomas, neu hybu bioamrywiaeth.

Ar draws y DU ac Ewrop, profwyd bod systemau tyfu cnydau mewn aleau yn cynhyrchu mwy na systemau ungnwd. Gall coed wella draeniad pridd, lleihau dŵr ffo a chreu microhinsawdd fwy cysgodol yn ystod tywydd eithafol, a gall gadw pridd yn gynhesach am gyfnod hirach yn gynnar yn y gwanwyn a diwedd yr hydref. Mae'r rhesi hefyd yn darparu cynefin i bryfed peillio a phryfed sy'n rheoli plâu yn naturiol.

**Cyfeiriadedd:** Mae rhesi'n aml wedi'u plannu yn wynebu Gogledd-De i gyfyngu ar effaith eu cysgodion ar gnydau sy'n tyfu yn yr aleau. Gall cyfeiriadedd plannu amrywio yn dibynnu ar lethr y tir, y prifwyntoedd neu amcanion penodol y safle e.e. plannu ar hyd cyfuchliniau i leihau erydiad pridd.

**Gosod rhesi:** Dylid sicrhau bod y bylchau rhwng y rhesi yn gadael i beiriannau fferm presennol barhau i weithredu'n rhwydd rhyngddynt. Fel arfer, bydd lled yr ale yn gysylltiedig â'r bylchau llwybr tractor presennol. Mae angen hefyd ystyried y pentiroedd bob pen i'r rhesi.




**Cynllunio rhesi:** Mae angen i resi coed fod yn ddigon llydan i sicrhau mynediad ar gyfer gwaith cynnal a chadw ar y coed, ac i ddarparu ar gyfer gweithrediadau coed-ac-aredig. Dylai coed gael eu gosod ar hyd y rhes yn ôl yr amgylchiadau mae'r rhywogaethau yn eu ffafrio. Gellir ymgorffori rhesi dwbl neu driphlyg o goed lle bo hynny'n briodol. Gall cymysgedd o flodau gwyllt gael eu hau o dan y rhesi coed i ddarparu manteision ychwanegol.

**Diogelu:** Bydd angen llawes warchod ar goed i'w diogelu rhag mamaliaid sy'n pori, fel ceirw, cwningod a llygod pengrwn. Mae'n bosibl y bydd coed ffrwythau a chnau angen eu clymu wrth stanciau, yn dibynnu ar y lleoliad a'r gwreiddgyff sy'n cael ei ddefnyddio.

**Beth i'w dyfu:** Os ydych yn dewis plannu coed cynhyrchiol, dylid nodi llwybr i'r farchnad ar gyfer eich cynnyrch newydd cyn plannu.

**Gwreiddgyff:** Mae coed ffrwythau a chnau cynhyrchiol yn cael eu tyfu ar wahanol wreiddgyff er mwyn sicrhau bod eu maint, eu ffurf a'u cynhyrchiant yn gyson. Bydd cynllun coed-ac-aredig yn cynnwys penderfyniadau ynghylch pa wreiddgyff sy'n briodol. Bydd y rhan fwyaf o gynlluniau sy'n plannu coed ffrwythau yn defnyddio gwreiddgyff canolig neu led sydyn (e.e. MM106 ar gyfer afalau)

**Amrywiadau:** Bydd dewis y coed ffrwythau priodol yn dibynnu ar briddoedd, y cyfeiriad maen nhw'n wynebu, uchder y tir a lleoliad. Mae angen ystyried grwpiau pryfed peillio er mwyn sicrhau bod y naill a'r llall yn elwa o beillio er mwyn sicrhau'r cynhyrchiant gorau posibl. Dewiswch fathau y gellir eu cynaeafu ar adeg sy'n cyd-fynd â gweithrediadau coed-ac-aredig cyfagos.

1.Cynhyrchiant a Gwerthusiad Economaidd o Systemau Amaeth-goedwigaeth ar gyfer Cynhyrchu Bwyd a Chynhyrchion Di-Bwyd yn Gynaliadwy
https://mdpi-res.com/d_attachment/sustainability/ sustainability-12-05429/article_deploy/sustainability-12-05429.pdf

Os oes gennych ddiddordeb mewn plannu coed ar ffermydd, a chyfleoedd eraill i gael rhagor o wybodaeth, ewch i: **woodlandtrust.org.uk/plant** neu cysylltwch â **plant@woodlandtrust.org.uk**


Kempton Way, Grantham, Lincolnshire NG31 6LL
**0330 333 3300** **woodlandtrust.org.uk**


The Woodland Trust logo is a registered trademark. The Woodland Trust is a charity registered in England and Wales number 294344 and Scotland number SC038885. A non-profit-making company limited by guarantee. Registered in England number 1982873.



Mae'r daflen hon wedi bod yn bosibl diolch i chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl.


COED CADW WOODLAND TRUST

FSC MIX Paper FSC® C189282

DC00539